# CORFF Y CYNRYCHIOLWYR YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Cynhaliwyd cyfarfod o Gorff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru yn 2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd ar 5 Mawrth 2020.

**Yn bresennol:**

Aelodau yn rhinwedd eu swydd
*Archesgob Cymru*
Y Parchedicaf J D E Davies

*Cadeiryddion Byrddau Cyllid Esgobaethau:*

| | |
|---|---|
| Llanelwy: | Mrs H R Jones |
| Tyddewi: | Mr N C P Griffin |
| Llandaf: | Mr M A Lawley |
| Mynwy: | Mr P E Lea |
| Abertawe ac Aberhonddu | Syr E P Silk |

Aelodau etholedig

| | |
|---|---|
| Llanelwy: | Y Tra Parchedig N H Williams |
| Bangor: | Y Tra Parchedig K L Jones |
| Tyddewi: | Mrs J A P Hayward, yr Hybarch P R Mackness |
| Llandaf: | Mr G I Moses, yr Hybarch C B W Smith |
| Mynwy: | Miss P R Brown, yr Hybarch J S Williams |
| Abertawe ac Aberhonddu | Mr T J P Davenport, Yr Hybarch A N Jevons |

Aelodau enwebedig
Mr J J Turner (Cadeirydd)
Mr R Davies
Mr P D Kennedy
Mr T O S Lloyd

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mr L James, Dr H Parry-Smith, Mrs E M Perkins, Mrs H Wiseman a'r Hybarch M K Stallard.

**Yn bresennol:** Roedd yr aelodau staff canlynol yn bresennol:
Ysgrifennydd y Dalaith, y Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, y Swyddog Llywodraethu a'r Swyddog Cyllid a Llywodraethu. Roedd y Pennaeth Cyfathrebu a Thechnoleg a'r Rheolwr Diogelu yn bresennol ar gyfer eitemau 20/16 and 20/17.

**Gweddïau:** Arweiniwyd y gweddïau agoriadol gan yr Hybarch Christopher Smith, Archddiacon Morgannwg.

**Gwrthdaro buddiannau:** Datganodd pob clerig a oedd yn bresennol fod ganddynt fuddiant yn yr Adolygiad o Dâl Clerigion (eitem 20/19).

Datganodd deoniaid ac archddiaconiaid y cadeirlannau a oedd yn bresennol fuddiant yn y drafodaeth ar ariannu cadeirlannau (eitem 19/52), er na fyddent yn elwa'n bersonol ar unrhyw benderfyniadau a fyddai'n deillio o'r drafodaeth honno.

**Cofnodion cyfarfod 14 Tachwedd 2019**
20/01

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd. Nodwyd amrywiol faterion a oedd yn codi o'r cofnodion hyn.

**Crynodeb o weithgareddau'r Pwyllgor**
20/02

Atgoffodd y Swyddog Llywodraethu yr aelodau fod Corff y Cynrychiolwyr wedi bod yn gweithredu system 'taflen binc' ers blynyddoedd, a oedd yn tynnu sylw at faterion penodol yn codi o gofnodion pwyllgorau. Roedd unrhyw faterion a oedd yn codi o gofnodion pwyllgorau a oedd angen penderfyniadau yn ymddangos fel eitemau unigol ar agenda Corff y Cynrychiolwyr ar gyfer ystyriaeth benodol.

Eglurodd y Swyddog Llywodraethu fod system newydd yn cael ei chyflwyno ac y byddai pob eitem i'w nodi gan Gorff y Cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys mewn un papur. Byddai hyn yn rhoi cyfle cliriach i aelodau ymgysylltu â gweithgareddau pwyllgorau Corff y Cynrychiolwyr.

Nododd Corff y Cynrychiolwyr y newid.

**Diweddariadau ymddiriedolwyr**
20/03

<u>Cofrestr gwrthdaro buddiannau</u>

Nododd Corff y Cynrychiolwyr fod pob aelod wedi cael cais i adolygu a diweddaru eu cofrestri o wrthdaro buddiannau fel rhan o'r adolygiad blynyddol.

Gan nad oedd y Polisi Gwrthdaro Buddiannau wedi'i ddiweddaru ers nifer o flynyddoedd nodwyd y byddai'r Pwyllgor Pobl yn cynnal adolygiad cyffredinol i Gorff y Cynrychiolwyr ei ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.

<u>Cymhwysedd ymddiriedolwyr</u>

Atgoffodd y Swyddog Llywodraethu Gorff y Cynrychiolwyr ei fod wedi cytuno, yn ei gyfarfod ar 15 Tachwedd 2018 (cofnod 18/47), y byddai'r holl aelodau'n cael cais i ail-gadarnhau eu bod yn dal yn gymwys i weithredu fel ymddiriedolwyr, yn unol â meini prawf cymhwysedd y Comisiwn Elusennau, bob blwyddyn.

Gofynnwyd i'r holl aelodau adolygu, ac os oedd modd iddynt wneud hynny, ail-gadarnhau eu cymhwysedd i fod yn ymddiriedolwyr.

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau o'u dyletswyddau fel ymddiriedolwyr, a chytunwyd i ailddosbarthu canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar rôl ymddiriedolwyr.

**Pwerau a dyletswyddau Pwyllgor Datblygu Hyfforddiant, Ffurfiant a'r Weinidogaeth**
20/04

Cefndir

Atgoffodd Ysgrifennydd y Dalaith fod yr aelodau wedi cael gwybod am drefniadau llywodraethu Athrofa Padarn Sant ym mis Ionawr 2020 a bod rhai newidiadau i'r trefniadau'n angenrheidiol cyn yr Adolygiad Ansawdd Porth oedd i ddod.

Fel darparwr addysg uwch roedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru'n ei gwneud hi'n ofynnol i Athrofa Padarn Sant gynnal Adolygiad Ansawdd Porth fel rhan o brosesau sicrhau ansawdd safonol. Er mwyn paratoi at yr adolygiad hwn cynhaliwyd ffug adolygiad ym mis Rhagfyr 2019. Nodwyd bod yr Adolygiad Ansawdd Porth yn adolygiad o drefniadau llywodraethu, polisïau a gweithdrefnau: nid adolygiad o addysgu a safonau addysgu ydoedd.

Roedd y ffug adolygiad wedi dangos gwendid sef ei bod hi'n glir mai Corff y Cynrychiolwyr oedd y corff ymddiriedolwyr a oedd yn goruchwylio Athrofa Padarn Sant, ond nad oedd rôl Cyngor Padarn Sant a'i atebolrwydd i Gorff y Cynrychiolwyr yn ddigon clir. Felly, roedd angen egluro'r sefyllfa'n ffurfiol mewn pryd ar gyfer dyddiad cau cyflwyno'r ddogfen i'w hadolygu ar 24 Ionawr 2020.

Cafodd y newidiadau angenrheidiol i'r ddogfen pwerau a chyfrifoldeb cyfredol eu drafftio a'u cymeradwyo gan Gadeirydd Corff y Cynrychiolwyr ar 17 Ionawr 2020 ac maent wedi'u hamgáu yn atodiad 1. Mae holl aelodau Corff y Cynrychiolwyr wedi'u hysbysu am y cam gweithredu hwn gan y Cadeirydd.

Roedd y diwygiadau i'r pwerau a'r dyletswyddau'n ceisio datgan y canlynol yn glir a'u mynegi'n gyson:

- sefyllfa lywodraethu'r Cyngor a'i fod yn atebol i Gorff y Cynrychiolwyr;
- cyfrifoldeb y Cyngor am lywodraethu academaidd a sicrhau ansawdd.

Pwyllgor Datblygu Hyfforddiant, Ffurfiant a'r Weinidogaeth

Roedd yr enw 'Cyngor Padarn Sant' yn achosi rhai anawsterau hefyd gan ei fod yn awgrymu bod y Cyngor yn gorff ymddiriedolwyr annibynnol oedd â chylch ehangach o gyfrifoldeb nag ydoedd mewn gwirionedd. Cynigwyd felly i ailenwi'r Cyngor yn 'Bwyllgor Datblygu Hyfforddiant, Ffurfiant a'r Weinidogaeth', a fyddai'n sicrhau bod yr enw'n adlewyrchu natur y pwyllgor yn glir (fel pwyllgor o Gorff y Cynrychiolwyr) a'i bwrpas (ar gyfer llywodraethu academaidd a gwella).

Aelodaeth

Roedd meini prawf aelodaeth y Pwyllgor wedi'u diwygio hefyd a'u dosbarthu. Roeddynt yn cynnwys dau esgob (wedi'u penodi gan Fainc yr Esgobion, gydag un ohonynt yn Gadeirydd y Pwyllgor), chwe chyfarwyddwr gweinidogaeth esgobaeth (yn rhinwedd eu swydd) a dau aelod wedi'u penodi gan Gorff y Cynrychiolwyr. Gallai'r Pwyllgor gyfethol nifer o aelodau eraill i sicrhau amrywiaeth a gwybodaeth o fewn aelodaeth y Pwyllgor, yn cynnwys aelodau o Eglwysi eraill a'r byd academaidd.

Esgob Llandaf oedd Cadeirydd gweithredol y Pwyllgor ar hyn o bryd, ond byddai Mainc yr Esgobion yn ystyried ei chynrychiolaeth ar y Pwyllgor, a goruchwyliaeth esgobol o faes cyfrifoldeb portffolio gweinidogaeth ehangach, yn eu cyfarfod ym mis Mawrth 2020.

Atgoffwyd yr aelodau bod Miss Paulette Brown wedi gweithredu fel un o'r cynrychiolwyr ar Gyngor Padarn Sant a ni chynigwyd newid hyn. Roedd lle'r ail aelod o Gorff y Cynrychiolwyr wedi bod yn wag ers peth amser, a thrafodwyd hyn. Cytunwyd y byddai'n fuddiol iawn cael person lleyg gyda phrofiad penodol yn y sector addysg neu werthuso cyrsiau: gellid defnyddio'r lle gwag yng nghategori aelodaeth gyfetholedig Corff y Cynrychiolwyr i hwyluso penodiad o'r fath fel bo angen.

Crynodeb

Ar ôl trafod cyflawnodd Corff y Cynrychiolwyr y camau canlynol:

i. Cymeradwyo ailenwi Cyngor Padarn Sant yn Bwyllgor Datblygu Hyfforddiant, Ffurfiant a'r Weinidogaeth;
ii. Cymeradwyo pwerau a dyletswyddau diwygiedig Pwyllgor Datblygu Hyfforddiant, Ffurfiant a'r Weinidogaeth;
iii. Cadarnhau penodiad Miss Paulette Brown yn un o ddau gynrychiolydd Corff y Cynrychiolwyr ar y Pwyllgor;
iv. Awdurdodi staff y dalaith i weithio i nodi ymgeiswyr addas ar gyfer eu penodi i'r Pwyllgor gan Gorff y Cynrychiolwyr;
v. Nodi y byddai Mainc yr Esgobion yn ystyried cynrychiolaeth esgobol ar y Pwyllgor.

**Polisi Buddsoddi Moesegol**
20/05

Cynghorodd y Pennaeth Cyllid fod y Grŵp Buddsoddi Moesegol wedi adolygu Polisi Buddsoddi Moesegol yr Eglwys yng Nghymru'n ddiweddar ac wedi cynnig nifer o ddiwygiadau, cynigion yr oedd y Pwyllgor Buddsoddi wedi'u hystyried yn fanwl.

Roedd dau o gynigion y Grŵp Buddsoddi Moesegol yn cynnwys newidiadau i drefniadau buddsoddi cronfa fuddsoddi Corff y Cynrychiolwyr:

- Lleihau'r terfyn buddsoddi ar gyfer tybaco, gamblo ac alcohol o 20% i 10%;
- Peidio â buddsoddi'n fwriadol mewn unrhyw gwmni a oedd yn cael dros 5% o'i drosiant o gynhyrchu neu echdynnu tanwydd ffosil.

Roedd y Pwyllgor Buddsoddi wedi cael cyngor gan y rheolwyr buddsoddi ar yr effaith y byddai'r cynigion hyn yn ei chael ar incwm buddsoddi'r dyfodol. Cadarnhawyd bod y Pwyllgor Buddsoddi wedi ystyried y cyngor hwn ac wedi deall effaith bosibl y cynigion ar elw buddsoddiadau'r dyfodol, sefyllfa a fyddai'n cael ei rheoli.

Ar sail y cyngor hwn, argymhellodd y Pwyllgor Buddsoddi y newidiadau canlynol i'r Polisi Buddsoddi Moesegol:

i. Lleihau'r terfyn buddsoddi ar gyfer tybaco, gamblo ac alcohol o 20% i 10%;

ii. Dileu'r llinell '*y tu hwnt i feysydd amddiffyniad cyfreithiol a chadw heddwch rhyngwladol*' o adran y Polisi sy'n ymwneud ag arfau;

iii. Newid y geiriau '*llywodraethu a chyfrifoldeb cymdeithasol*' i '*amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu*';

iv. Diwygio polisi'r Eglwys yng Nghymru fel na fyddai'n buddsoddi'n arferol neu'n wybyddus mewn unrhyw gwmni sy'n cael dros 5% o'i drosiant o gynhyrchu neu echdynnu tanwydd ffosil.

Ar ôl trafod cymerodd Corff y Cynrychiolwyr y camau canlynol:

- Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Buddsoddi Moesegol i'w cymeradwyo a'u mabwysiadu gan Gorff y Cynrychiolwyr;
- Cadarnhau y dylai gwarediadau perthnasol gael eu cwblhau erbyn diwedd 2020.

Mae'r Polisi Buddsoddi Moesegol, gyda'r diwygiadau argymelledig arfaethedig wedi'u nodi, wedi'i gynnwys fel atodiad 2.

**Aelodaeth Corff y Cynrychiolwyr**
20/06

Rhoddodd y Swyddog Llywodraethu wybodaeth am ddau newid i'r aelodaeth.

<u>Aelodaeth yn rhinwedd eu swydd</u>

Roedd Bwrdd Cyllid Esgobaeth Bangor wedi penodi'r Hybarch Mary Stallard, Archddiacon Bangor, fel ei Gadeirydd newydd, i gymryd lle'r Dr Hywel Parry-Smith. Gyda'i phenodiad, roedd yr Archddiacon Mary wedi dod yn aelod o Gorff y Cynrychiolwyr, yn rhinwedd ei swydd.

<u>Aelodaeth etholedig</u>

Roedd Dr Hywel Parry-Smith wedi'i ethol fel cynrychiolydd lleyg Bangor.

Dim ond un lle gwag oedd gan Gorff y Cynrychiolwyr erbyn hyn - yn y categori aelodaeth gyfetholedig, lle a oedd yn cael ei gadw'n strategol rhag ofn y byddai angen cyfethol aelod arall ar sail arbenigedd penodol yn y dyfodol.

**Aelodaeth Pwyllgorau Corff y Cynrychiolwyr**
20/07

Nododd Corff y Cynrychiolwyr fod y meini prawf aelodaeth ar gyfer y Pwyllgor Datblygu Hyfforddiant, Ffurfiant a'r Weinidogaeth yn cynnwys holl gyfarwyddwyr gweinidogaeth esgobaethau, yn rhinwedd eu swyddi. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol fod y rhan fwyaf o'r Cyfarwyddwyr Gweinidogaeth cyfredol yn aelodau clerigol a oedd yn dal swydd, ond bod y Parchedig Ganon Richard Lowndes, Cyfarwyddwr Gweinidogaeth yn esgobaeth Llandaf, yn cael ei gyflogi gan Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol fod Adran 7(2) o Bennod III Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru yn gwahardd holl aelodau Corff y Cynrychiolwyr a Bwrdd Cyllid Esgobaethau rhag bod yn aelodau o Gorff y Cynrychiolwyr neu unrhyw un o'i bwyllgorau ar hyn o bryd. Roedd y Cyfansoddiad cyfredol felly'n gwahardd y Canon Landowes rhag bod yn aelod o'r Pwyllgor Datblygu Hyfforddiant, Ffurfiant a'r Weinidogaeth.

Nodwyd bod nifer cynyddol o glerigion yn cael eu cyflogi yng nghyd-destun contract cyflogaeth yn hytrach na deiliaid swyddi felly gallai'r sefyllfa hon ddod yn fwy cyffredin gydag amser.

Ar ôl trafod, cytunodd Corff y Cynrychiolwyr ar y diwygiad canlynol i gymal perthnasol y Cyfansoddiad, i'w ystyried gan Gorff y Cynrychiolwyr:

*Ni fydd unrhyw un sydd yng ngwasanaeth cyflogedig llawn amser Corff y Cynrychiolwyr, Bwrdd Cyllid Esgobaeth nac unrhyw gorff taleithiol neu esgobaethol arall o'r fath yn yr Eglwys yng Nghymru yn gymwys i fod yn aelod o Gorff y Cynrychiolwyr nac unrhyw un o'i bwyllgorau na'i is-bwyllgorau, heb gymeradwyaeth benodol Corff y Cynrychiolwyr.*

Hefyd, cymeradwyodd Corff y Cynrychiolwyr benodiad y Canon Richard Lowndes, Cyfarwyddwr Gweinidogaeth Esgobaeth, esgobaeth Llandaf, i'r Pwyllgor Datblygu Hyfforddiant, Ffurfiant a'r Weinidogaeth pe bai'r Corff Llywodraethol yn cymeradwyo'r newid angenrheidiol i'r Cyfansoddiad. Hyd yr adeg honno, byddai'r Canon Lowndes yn parhau i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor fel sylwedydd.

**Sylwadau ar gyfarfod aelodau Corff y Cynrychiolwyr a'r Pwyllgor Sefydlog (4-5 Chwefror 2020)**
20/08

Ym mis Chwefror 2020 cyfarfu aelodau Corff y Cynrychiolwyr a'r Pwyllgor Sefydlog mewn cyfarfod preswyl i drafod materion yn ymwneud â blaenoriaethau strategol ariannol yr Eglwys yng Nghymru yn y dyfodol. Dosbarthwyd cofnodion o'r trafodaethau i'r holl aelodau.

Nodwyd bod y cyfarfod yn achlysur gwerth chweil a'i fod wedi bod yn brofiad grymusol a chadarnhaol. Y bwriad oedd cynnal cyfarfod ar y cyd arall ym Mai 2020 ble byddai themâu a oedd yn codi o'r cyfarfod blaenorol yn cael eu trafod a'u mireinio ymhellach. Nodwyd ei bod hi'n bwysig parhau i gynnal trafodaethau rhwng Corff y Cynrychiolwyr, y Pwyllgor Sefydlog a Mainc yr Esgobion.

**Alldro drafft 2019**
20/09

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr alldro drafft ar gyfer 2019.

Adroddwyd bod y diffyg disgwyliedig ar gyfer 2019 yn £1.9 miliwn, o gymharu â'r gyllideb wreiddiol o £3 miliwn.

Atgoffwyd Corff y Cynrychiolwyr o'i fodel cyfanswm elw o asesu a chynllunio gwariant fel canran o werthoedd cyfalaf, gan ddefnyddio cyfartaledd pum mlynedd, ac mai'r nod oedd lleihau gwariant i lefel gynaliadwy o 3.5% o werthoedd cyfalaf.

Roedd cyfanswm y gwariant ar gyfer 2019 yn £20.5 miliwn o gymharu â chyllideb wreiddiol o £19.9 miliwn. Roedd y prif amrywiadau i'r gyllideb wreiddiol yn cynnwys:

- Cynnydd o £490,000 ar gyfraniadau pensiwn clerigion (gwasanaeth blaenorol), a gyfrifwyd fel canran o incwm (30.9%): gan fod incwm yn fwy na'r gyllideb, cynyddodd y swm a ddyrannwyd i gyfraniadau pensiwn clerigion hefyd.
- IICSA - £47,000 yn is na chostau'r cyngor a gyllidebwyd.
- Cyfandaliad untro o £250,000 i Gynllun Pensiwn y Staff i leihau'r diffyg cyllid.
- £100,000 o arbediad mewn costau staff yn sgil swyddi gwag yn uwch dîm staff y dalaith.

Nododd Corff y Cynrychiolwyr yr alldro drafft ar gyfer 2019: byddai ffigurau terfynol yn cael eu cyflwyno i'w cyfarfod nesaf ym mis Mehefin.

**Y Gronfa Efengylu**
20/10

Rhoddodd Ysgrifennydd y Dalaith y wybodaeth ddiweddaraf ar y defnydd o'r Gronfa Efengylu ers cyfarfod diwethaf Corff y Cynrychiolwyr a'r sefyllfa ariannu gyfredol.

<u>Grantiau a ddyfarnwyd</u>

Nododd Corff y Cynrychiolwyr fod Pwyllgor y Gronfa Efengylu wedi cyfarfod ar 6 Chwefror a dyfarnu'r ddau grant canlynol:

Esgobaeth Tyddewi - dyfarnwyd £1.915 miliwn i'r esgobaeth am waith prosiect mewn partneriaeth â Byddin yr Eglwys.

Esgobaeth Llandaf - dyfarnwyd £2.974 miliwn i'r esgobaeth ar gyfer ei brosiect 'Young Faith Matters'.

<u>Diweddariadau eraill o esgobaethau</u>

Darparwyd diweddariadau ar hynt prosiectau yn esgobaethau Llanelwy a Bangor yn dilyn dyfarnu grantiau o'r Gronfa Efengylu yn 2019.

Nododd Corff y Cynrychiolwyr y byddai cais yn debygol o ddod gan esgobaeth Mynwy yn ddiweddarach yn 2020; ac roedd sgyrsiau paratoadol yn parhau gydag esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu.

<u>Y sefyllfa ar hyn o bryd</u>

Dyrannwyd cyfanswm o £10 miliwn i'r Gronfa Efengylu. Gyda £9,838,000 wedi'i ddyfarnu hyd yn hyn, roedd £162,000 yn dal heb ei ddyrannu.

Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2019 (eitem 19/53) roedd Corff y Cynrychiolwyr wedi trafod cyllid y Gronfa Efengylu'n fanwl, gan ddod i'r casgliad nad oedd am ddyrannu mwy o arian i'r Gronfa Efengylu. Nodwyd nad oedd dwy esgobaeth wedi cyflwyno cais cam cyntaf eto, ac y gallai Pwyllgor y Gronfa Efengylu gael gafael ar hyd at £6 miliwn o arian arall pe bai angen gwneud hynny i sicrhau nad yw'r esgobaethau hynny'n cael eu cosbi.

<u>Pwyllgor y Gronfa Efengylu</u>

Nododd Corff y Cynrychiolwyr fod Mrs Beci Ratcliffe wedi gadael y pwyllgor oherwydd amgylchiadau personol. Ni fyddai unrhyw un yn cael ei benodi yn ei lle am y tro er mwyn dod o hyd i berson â phrofiad a gwybodaeth berthnasol (yn ogystal â bodloni'r meini prawf aelodaeth cyfredol). Nodwyd bod aelodau o bob esgobaeth yn dal i fod ar y Pwyllgor.

**Diweddariad ar y Cadeirlannau**
20/11

Atgoffwyd Corff y Cynrychiolwyr ei fod wedi gofyn i grŵp bychan ystyried trefniadau ariannu cadeirlannau'n fanwl yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2019 (eitem 19/52).

Roedd y grŵp yn cynnwys yr Archesgob, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg Mr Geoff Moses, yr Hybarch Paul Mackness, y Pennaeth Cyllid a Phennaeth y Gwasanaethau Eiddo. Roedd y grŵp wedi cynnal ymweliadau â'r chwe chadeirlan i gyfarfod y deoniaid a staff eraill y cadeirlannau a meithrin dealltwriaeth fanwl a realistig o bob cadeirlan a'u sefyllfaoedd unigol.

Nodwyd, gan mai newydd gwblhau ei adolygiadau oedd y grŵp, y byddai adroddiad ysgrifenedig, gydag argymhellion, yn cael ei baratoi i'w ystyried gan Gorff y Cynrychiolwyr yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2020.

**Penderfyniad Cyffredinol o dan Adran 333 o Ddeddf Elusennau 2011**
20/12

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol yr aelodau fod y weithdrefn ar gyfer gweithredu dogfennau ar ran Corff y Cynrychiolwyr wedi'i nodi yn Siarter Frenhinol Corff y Cynrychiolwyr (fel y'i diwygiwyd gan y Siarter Atodol). Pan ddefnyddir Sêl Corff y Cynrychiolwyr i weithredu dogfennau roedd gofyn i un aelod o Gorff y Cynrychiolwyr fod yn bresennol ynghyd â'r Ysgrifennydd, yr Ysgrifennydd Cynorthwyol neu Gynorthwyydd Cyfreithiol yr Ysgrifennydd.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, fodd bynnag, y gallai rhai dogfennau (rhai sy'n ymwneud â gwaredu tir neu roi morgais yn bennaf) fod angen tystysgrif yr ymddiriedolwyr, yn ogystal â sêl. Roedd canllawiau'r Gofrestrfa Tir yn nodi bod y dystysgrif hon ar wahân ac yn wahanol i'r defnydd awdurdodedig arferol o seliau cwmni elusennau.

Byddai rhoi tystysgrifau o'r fath ar gyfer trafodion perthnasol yn anodd gan y byddai angen i bob aelod o Gorff y Cynrychiolwyr lofnodi pob tystysgrif angenrheidiol. Yn lle hynny, cynigwyd y dylai Corff y Cynrychiolwyr wneud penderfyniad cyffredinol o dan Adran 333 o Ddeddf Elusennau 2011 yn awdurdodi dau ymddiriedolwr i weithredu dogfennau o'r fath.

Felly, pasiodd Corff y Cynrychiolwyr y penderfyniad canlynol:

*Yn unol â'r pŵer a roddwyd i ni o dan adran 333 o Ddeddf Elusennau 2011 rydym ni, ymddiriedolwyr elusennol Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru ('yr Elusen') yn penderfynu y gellir awdurdodi unrhyw ddau o ymddiriedolwyr elusennol yr Elusen i gymeradwyo, llofnodi a gweithredu unrhyw ddogfen y mae ymddiriedolwyr elusennol yr Elusen yn barti iddi gyda'r bwriad y bydd unrhyw ddogfen a weithredir o dan yr awdurdod hwn yn cael yr un effaith â phe bai'n cael ei gweithredu gan holl ymddiriedolwyr elusennol yr Elusen.*

**Y Comisiwn Elusennau – adroddiadau digwyddiadau difrifol**
20/13

Tynnodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol sylw Corff y Cynrychiolwyr at ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar y trothwy ar gyfer a'r enghreifftiau o ddigwyddiadau difrifol y dylid tynnu sylw'r Comisiwn Elusennau atynt, gan egluro bod Corff y Cynrychiolwyr wedi'i awdurdodi gan y Comisiwn i gyflwyno adroddiadau ar ddigwyddiadau difrifol a digwyddiadau diogelwch ar ran unrhyw ran o'r Eglwys yng Nghymru.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol hefyd fod proses wedi'i sefydlu i nodi digwyddiadau digon difrifol a oedd yn haeddu cael eu hadrodd i'r Comisiwn Elusennau: byddai digwyddiadau difrifol yn cael eu nodi gan Banel Diogelu'r Dalaith; yr adroddiad angenrheidiol yn cael ei ddrafftio gan y Rheolwr Diogelu a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol; byddai Cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr yn cael ei hysbysu cyn cyflwyno'r adroddiad.

Yn dilyn gwerthusiad o'r gwaith achos ar ddiogelu ar gyfer 2019 cadarnhawyd bod pedwar adroddiad digwyddiad difrifol wedi'u cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau ym mis Ionawr 2020. Nid oedd y Comisiwn wedi ymateb eto. Roedd y pedwar adroddiad yn ymwneud ag ymchwiliadau troseddol cysylltiedig â diogelwch a oedd yn cynnwys clerigion neu bobl leyg.

Yn y dyfodol, bydd adroddiadau ystadegol o adroddiadau digwyddiadau difrifol a gyflwynir i'r Comisiwn Elusennau'n cael eu cyflwyno i Gorff y Cynrychiolwyr er gwybodaeth.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn lle holwyd am adroddiadau ar ddigwyddiadau difrifol yn ymwneud â chamymddwyn ariannol. Nodwyd mai dim ond ar faterion yn ymwneud â diogelu y mae gan Gorff y Cynrychiolwyr yr awdurdod i wneud adroddiad ar ddigwyddiad difrifol ar ran rhannau eraill yr Eglwys yng Nghymru ar hyn o bryd. Er y gallai staff esgobaeth neu dalaith ddarparu cymorth a chefnogaeth, y gadeirlan, y plwyf neu'r esgobaeth dan sylw ddylai adrodd am ddigwyddiadau ariannol difrifol.

Byddai canllawiau cyffredinol yn cael eu darparu ar ddigwyddiadau difrifol.

Nododd Corff y Cynrychiolwyr y sefyllfa hon.

**Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA)**
20/14

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol Gorff y Cynrychiolwyr, yn dilyn gwrandawiad IICSA yng Ngorffennaf 2019, fod yr Eglwys yng Nghymru wedi cyflwyno datganiad clo ysgrifenedig i'r ymchwiliad a oedd yn nodi 20 cam gweithredu neu faes i'w hystyried ymhellach er mwyn gwella gweithdrefnau, polisïau ac arferion diogelu. Roedd y datganiad hwn wedi nodi y byddai adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Ymchwiliad yn Ionawr 2020 yn nodi'r gwaith a wnaed yn y misoedd cyfamserol.

Cadarnhawyd bod yr adroddiad diweddaru hwn wedi'i gyflwyno felly ar 30 Ionawr 2020, ffaith a nodwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr.

**Diweddariad ar Ddiogelu**
20/15

<u>Polisi Diogelu</u>

Hysbysodd y Rheolwr Diogelu Gorff y Cynrychiolwyr y byddai Polisi Diogelu'r Dalaith yr Eglwys yng Nghymru a gynhyrchwyd yn 2016 ac a adolygwyd yn 2018, yn cael ei ddiweddaru yn 2020, yn unol â'r ymrwymiad a wnaed i IICSA yn y diweddariad ysgrifenedig a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2020. Dyfeisiwyd rhaglen waith ar y Polisi diwygiedig gyda'r gobaith y byddai Corff y Cynrychiolwyr yn adolygu'r diwygiadau arfaethedig yn eu cyfarfod ym mis Mehefin 2020.

Trefn Rheoli Gwaith Achos

Hefyd yn ymwneud ag ymrwymiad a wnaed i IICSA, roedd trefn rheoli gwaith achos (*MyConcern)* wedi'i rhoi ar waith yn Ionawr 2020. Roedd y drefn hon yn cael ei defnyddio gan swyddogion diogelu'r dalaith i gofnodi gweithgarwch diogelu a chynhyrchu adroddiadau ar waith achos. Roedd staff diogelu'r dalaith yn parhau i weithio gyda darparwr *MyConcern* i fireinio'r feddalwedd.

Swyddogion Diogelu'r Dalaith

Dywedodd y Rheolwr Diogelu fod y gwaith o recriwtio trydydd Swyddog Diogelu'r Dalaith ar y gweill.

Hyfforddiant ar Ddiogelu

Yn 2018, symudwyd y cyfrifoldeb strategol a gweithredol am ddiogelu i Athrofa Padarn Sant. O ganlyniad, cytunwyd ar fodel llywodraethu newydd i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu strategaeth ddiwygiedig ar gyfer hyfforddiant ar ddiogelu a deunyddiau hyfforddi cysylltiedig.

Nododd Corff y Cynrychiolwyr y diweddariad ar ddiogelu.

**Cyllido cronfa ddata diogelu**
20/16

Hysbysodd Pennaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gorff y Cynrychiolwyr fod staff TGCh, yn ogystal â chyflwyno trefn reoli *Myconcern* ar gyfer gwaith yn ymwneud â gwaith achos diogelu, wedi cynnal cyfres o ymgynghoriadau ar draws y dalaith i adolygu'r gefnogaeth dechnegol gyfredol ar gyfer rheoli gwaith diogelu gyda'r bwriad o wneud gwelliannau yn ôl y gofyn, er mwyn ymateb i'r IICSA.

Roedd yr ymgynghoriadau hyn wedi amlygu bod angen brys am drefn ddiogelu ar-lein unedig a oedd yn cwmpasu swyddogaethau gweinyddol cyfredol.

Cyflwynodd Pennaeth TGCh gynnig manwl ar gyfer pwrcasu a llunio system cronfa ddata a oedd yn hwyluso prosesau electronig i fonitro, cofnodi a rheoli'n rhagweithiol ardystiadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a hyfforddiant ar ddiogelu.

Dangosfwrdd Rheoli

Byddai'r dangosfwrdd hwn yn darparu cyfleuster trosolwg ac adolygiad a fyddai'n caniatáu dadansoddiad gronynnog o wiriad DBS a darpariaeth hyfforddiant ar ddiogelu o fewn esgobaeth benodol, plwyf neu endid daearyddol neu strwythurol. Byddai trefn gyda goleuadau traffig yn tynnu sylw at unrhyw ddiffygion a oedd angen eu datrys.

Rheoli gwiriadau DBS

Byddai'r cyfleuster hwn yn disodli'r gronfa ddata fewnol gyfredol ac yn digido elfennau papur y cais DBS cyfredol a'r broses adnewyddu.

Rheoli hyfforddiant ar ddiogelu

Byddai hyn yn disodli'r systemau gweinyddol cyfredol sydd ar waith yn Athrofa Padarn Sant ac yn cadw rhestr o glerigion a lleygion perthnasol eraill y mae'n ofynnol iddynt gael hyfforddiant ar ddiogelu, gan glustnodi'r sawl sydd heb gyflawni'r hyfforddiant. Byddai hefyd yn cychwyn yn awtomatig broses adnewyddu ar gyfer hyfforddiant.

Eglurodd y Pennaeth TGCh fod SystemServe yn gwmni a allai ddatblygu'r gronfa ddata angenrheidiol ac y byddai cost untro o £19,000 am ddatblygu'r system. Byddai'r costau gweithredol parhaus ar gyfer y system yn cael eu hysgwyddo gan gyllideb yr adran TGCh. Nodwyd y byddai'r system hon yn ychwaneg i'r system rheoli gwaith achos *Myconcern* ac yn cyflawni cyfres o swyddogaethau gwahanol ac ategol.

Roedd staff dros dro ychwanegol yn cael eu defnyddio i drosglwyddo'r holl gofnodion papur cyfredol ar faterion yn ymwneud â diogelu i'r storfa electronig.

Ar ôl trafod, cefnogodd Corff y Cynrychiolwyr y gwaith o ddatblygu'r gronfa ddata a chymeradwyo'r cyllid ychwanegol o £19,000 ar gyfer y gwaith datblygu.

**Pwerau a Dyletswyddau'r Pwyllgor Pobl**
20/17

Hysbyswyd Corff y Cynrychiolwyr fod y Pwyllgor Pobl yn ei gyfarfod ar 12 Chwefror 2020 wedi trafod newidiadau i'w bwerau a'i ddyletswyddau er mwyn iddynt gyfeirio'n fwy eglur at gyfrifoldebau'r Pwyllgor o ran diogelu.

Hysbyswyd Corff y Cynrychiolwyr ymhellach y byddai'r Pwyllgor Pobl yn sefydlu grŵp bach, sef y Grŵp Ymgynghorol ar Ddiogelu i roi cyngor arbenigol ar faterion diogelu, yn cynnwys yr adolygiad ar Bolisi Diogelu yr Eglwys yng Nghymru. Byddai'r Grŵp Ymgynghorol ar Ddiogelu yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Pobl ac yn darparu adroddiad blynyddol i Gorff y Cynrychiolwyr.

Cymeradwyodd Corff y Cynrychiolwyr y newidiadau arfaethedig i bwerau a dyletswyddau'r Pwyllgor Pobl fel y'u nodir yn atodiad 3 (newidiadau wedi'u nodi yn goch).

**Adolygu Cyflogau Clerigion**
20/18

Rhoddodd Ysgrifennydd y Dalaith gyflwyniad ar lafar ar y cynnydd a wnaed gan y Grŵp Gweithredu Adolygiad ar Gyflogau Clerigion. Atgoffwyd Corff y Cynrychiolwyr bod Grŵp Gweithredu wedi ei sefydlu yn ei gyfarfod ym Mehefin 2019 (cofnod 19/30) i baratoi costau, rhagamcanion ariannol ac opsiynau ar gyfer gweithredu'r argymhellion a oedd yn codi o adroddiad y Gweithgor ar Adolygu Cyflogau Clerigion sef *Cefnogi Cenhadaeth yr Eglwys yng Nghymru yn yr 21ain Ganrif*, a gyflwynwyd ym Mai 2019.

Nododd Ysgrifennydd y Dalaith fod y Grŵp Gweithredu yn cymeradwyo themâu cyffredinol yr adroddiad o gynyddu cyflog clerigion, disodli'r cynllun pensiwn buddion diffiniedig (DB) â threfniant cyfraniad diffiniedig (DC), ac na fyddai ffioedd am waith achlysurol bellach yn daladwy i glerigion unigol ond yn cael eu casglu o dan drefniant newydd.

Casglu a gweinyddu incwm yn deillio o waith achlysurol

Nid oedd y Grŵp Gweithredu'n cytuno â'r mecanwaith a gynigwyd yn adroddiad 2019 y dylid casglu a gweinyddu'n ganolog ffioedd am waith achlysurol, gan nodi bod hyn yn ymarferol anodd ac yn galw am fuddsoddiad drud mewn staff taleithiol i gyflawni'r gwaith. Roedd trefniadau eraill yn cael eu hystyried yn fanwl.

Fel rhan o'i waith roedd y Grŵp Gweithredu wedi ystyried y peryglon roedd hyn yn eu hachosi i Gorff y Cynrychiolwyr, i fyrddau cyllid esgobaethol ac i blwyfi yn sgil y newidiadau i ddyraniad incwm ffioedd am waith achlysurol, ac roedd yn gweithio ar gynigion manwl i liniaru'r peryglon hyn.

Cyflog a threfniadau pensiwn

Eglurodd Ysgrifennydd y Dalaith fod y Grŵp Gweithredu fel rhan o'u modelu ariannol wedi defnyddio cyfraddau o 15% a 17.5% fel sail i gyfraniadau cyflogwyr, gan ystyried bod cyfradd 2019 o 20% yn anghynaliadwy. Roedd y Grŵp Gweithredu yn parhau i asesu lleiafswm cyfraddau ar gyfer cyfraniadau 'cyflogeion'.

Roedd y Grŵp Gweithredu wedi adolygu lefelau arfaethedig cyflogau ar gyfer swyddi gyda mwy o gyfrifoldebau a byddai'n argymell rhai addasiadau.

Costau

